

Nawr yw'r amser i siarad am roi organau
Time to talk about organ donation



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013

Adroddiad a osodwyd gerbron Cynulliad
Cendlaethol Cymru o dan Adran 2.(3)

Rhagfyr 2016

Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013: Adroddiad a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Reol Sefydlog 2.3

Cyflwyniad

1. Rhoddwyd Cydsyniad Brenhinol i Ddeddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013 (“y Ddeddf”) ar 10 Medi 2013. Mae'r Ddeddf wedi creu system o gydsyniad i roi organau ar ôl marw yng Nghymru. Ar 1 Rhagfyr 2015, newidiodd Cymru i system optio allan meddal, neu “gydsyniad tybiedig” o gydsynio i roi organau. Mae hyn yn golygu y gellir ystyried bod unigolyn wedi cydsynio i roi organau oni bai fod wedi nodi'n wahanol, ac y bydd yn cael ei drin fel pe na bai ganddo wrthwynebiad i fod yn rhoddwr organau. Trwy wneud y newid hwn i'r ddeddfwriaeth ac wrtho ddatblygu fel “y norm”, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl gweld cynnydd i'r niferoedd sy'n rhoi organau dros gyfnod o amser.
2. Er na ddaeth y rhan fwyaf o'r darpariaethau yn y Ddeddf i rym tan 1 Rhagfyr 2015, cychwynnodd rhai adrannau yn sgil Cydsyniad Brenhinol, ac Adran 2 yn fwyaf nodedig, sy'n ymwneud â dyletswydd Gweinidogion Cymru i hysbysebu'r trefniadau sydd wedi eu cynnwys yn y Ddeddf.
3. Hefyd, mae Adran 2 (3) y Ddeddf yn cyflwyno rhwymedigaeth ar Weinidogion Cymru i adrodd yn flynyddol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru am bum mlynedd o fis Medi 2013 ar waith a wnaed i:
 - Hybu trawsblannu fel ffordd o wella iechyd pobl yng Nghymru;
 - Darparu gwybodaeth am drawsblannu a chynyddu ymwybyddiaeth ohono;
 - Hysbysu'r cyhoedd am yr amgylchiadau pan dybir fod cydsyniad i weithgareddau trawsblannu yn cael ei roi yn absenoldeb cydsyniad datganedig; a
 - Sicrhau bod yr adnoddau sydd ar gael i fyrddau iechyd lleol yn cynnwys y sgiliau a'r cymwyseddau arbenigol sy'n ofynnol at ddibenion y Ddeddf hon.
4. Yr adroddiad hwn yw'r trydydd o bum adroddiad blynyddol yn amlinellu'r gwaith a wnaed i gefnogi hyn. Mae'r adroddiad ar gyfer y cyfnod rhwng 16 Tachwedd 2015 a 14 Tachwedd 2016.

Cefndir

5. Mae Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013 yn darparu fframwaith ar gyfer cyflwyno system cydsyniad i roi organau. Adnabyddir y system hon fel system “optio allan meddal” neu “gydsyniad tybiedig”. Mae'r gyfraith yn darparu ysgogiad ar gyfer newid diwylliannol i ymddygiad ac agweddau tuag at gynyddu'r cyfraddau cydsyniad i roi organau.
6. Er mwyn i'r system gael ei gweithredu'n ddidrafferth ac yn llwyddiannus, fe'i hategwyd gan ymgyrch gwybodaeth i'r cyhoedd lawn i sicrhau bod poblogaeth Cymru yn ymwybodol o'r newidiadau ac yn deall sut y maent yn effeithio arnynt.
7. Prif swyddogaeth y gwaith cyfathrebu rhwng mis Rhagfyr 2013 a mis Mawrth 2016 oedd: hysbysu pobl am y newid deddfwriaethol; esbonio'n eglur y dewisiadau sydd ar gael i gofrestru penderfyniad rhoi organau (cydsyniad datganedig neu wrthodiad datganedig) a goblygiadau peidio â chofrestru penderfyniad, pan ellir tybio cydsyniad unigolyn. Fodd bynnag, gwnaed y gwaith yng nghyd-destun cyffredinol negeseuon cadarnhaol am roi organau a'r gwahaniaeth y gall ei wneud i fywydau unigolion a'u teuluoedd. Roedd pobl hefyd yn cael eu hannog i drafod eu penderfyniad gyda'u hanwyliaid.
8. Sylwer fod cyfyngiadau cyn-etholiad yn berthnasol i'r cyfnod rhwng 6 Ebrill 2016 a 5 Mai 2016, felly ni ellid cyflawni unrhyw weithgareddau cyfathrebu yn ystod y cyfnod hwnnw.
9. O fis Ebrill 2016 tan fis Tachwedd 2016, mae'r cyfathrebu wedi canolbwyntio ar atgoffa pobl o'u dewisiadau yn ogystal â'u hannog i drafod eu penderfyniad gyda'u hanwyliaid. Datblygwyd strategaeth gyfathrebu newydd ar gyfer ymgyrch 2016-17.

Amcan Polisi

- Cynyddu'r cyfraddau cydsyniad i roi organau trwy greu diwylliant yng Nghymru sy'n arwain at sefyllfa lle mai trafod rhoi organau yw'r 'norm'.

Amcanion Cyfathrebu

- Cynnal dealltwriaeth o'r system newydd a'r dewisiadau rhoi organau sydd gan bobl yng Nghymru - optio i mewn, optio allan neu wneud dim
- Hybu sgysiau rhwng teuluoedd ac anwyliaid am eu penderfyniad i roi organau
- Annog pobl i gofrestru penderfyniad naill ai ar y gofrestr rhoi organau neu trwy ddweud wrth deulu a ffrindiau
- Esbonio swyddogaeth teuluoedd/ffrindiau o ran parchu penderfyniadau rhoi organau
- Esbonio manteision rhoi a thrawsblannu organau byw

10. Nod y system a'r cyfathrebu gyda'i gilydd yw annog pobl i **egluro** eu penderfyniadau rhoi organau a **rhannu** hyn gyda'r rhai sydd agosaf atynt.

Cyllideb

11. Dyma'r gyllideb ar gyfer y tair blwyddyn ariannol y mae'r adroddiadau hyn yn eu trafod:
- Blwyddyn 2 (2013/14) £808,000;
 - Blwyddyn 3 (2014/15) £2,215,000;
 - Blwyddyn 4 (2015/16) £200,000** – gostyngwyd y cyllid gan ei fod ar ôl cyflwyno ac yn dilyn yr ymgyrch weithredu ddwy flynedd ddwys.

Dull

12. Darparwyd yr ymgyrch mewn dwy ffordd:

Rhagfyr 2015 – Mawrth 2016

- Ymgyrch hysbysebu yn y cyfryngau torfol trwy gysylltiadau cyhoeddus a chyfryngau cymdeithasol, yn atgoffa pobl bod y system wedi newid.

Mai 2016 – Tachwedd 2016

- Ymgyrch hysbysebu yn y cyfryngau o 11 Gorffennaf tan 11 Medi, gan gynnwys Wythnos Rhoi Organau (5-11 Medi)
- Themâu misol yn ymwneud â chynulleidfa neu fater penodol a ymddangosodd yn y cysylltiadau cyhoeddus a chyfryngau cymdeithasol.

Rydym wedi parhau i ddefnyddio astudiaethau achos i gefnogi'r ymgyrch gan mai'r rhain fu'r mwyaf llwyddiannus o ran cwmpas a chyrhaeddiad. Darparwyd wynebau a lleisiau'r ymgyrch hysbysebu ddiweddaraf ganddynt.

Negeseuon Allweddol

13. Parhawyd i ddefnyddio'r negeseuon cyffredin canlynol am y system newydd:
- Mae rhoi organau yng Nghymru wedi newid.
 - Mae gennych chi dri dewis o ran rhoi organau – gallwch optio i mewn, optio allan, neu wneud dim. Os byddwch yn penderfynu gwneud dim, bydd yn golygu nad oes gennych unrhyw wrthwynebiad i fod yn rhoddwr.
 - Gofalwch eich bod yn rhannu eich penderfyniad gyda'r rhai agosaf atoch.

- Dylai eich teulu bob amser fod yn rhan o drafodaethau ynghylch a ddylai organau gael eu rhoi. Mae'n bwysig eu bod yn ymwybodol o'ch penderfyniad fel y gallant ei anrhydeddu.
- Gallwch gofrestru penderfyniad ar unrhyw adeg trwy ffonio 0300 123 23 23 neu fynd i www.organdonationwales.org neu drwy ddweud wrth eich teulu a'ch ffrindiau.

Galwad i Weithredu

14. Mae hwn wedi aros yn gyson trwy gydol yr ymgyrch, ac wedi cynnwys y rhif ffôn ar gyfer Llinell Gymorth Rhoddwyr Organau Gwasanaeth Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG (0300 123 23 23) i'r rhai nad oes ganddynt fynediad at y rhyngwyd, neu y mae'n well ganddynt siarad â rhywun.

www.organdonationwales.org yw cyfeiriad y wefan a dyma ein sianeli cyfryngau cymdeithasol: Twitter @OrgDonationCYM a Facebook @OrganDonationWales.

Llwyddiannau Allweddol

Hysbysebu: Rhagfyr 2015 – Mawrth 2016

15. Canolbwyntiodd y cyfnod hwn ar y thema 'Mae amser i siarad o hyd' gan dargedu pob oedolyn 18 oed a hŷn.
16. Hysbysebwyd ar draws y llwyfannau canlynol:

Math o hysbysebu	Sianeli penodol
Teledu	ITV 1 S4C Sky Adsmart ITV Player – Cymru All4 – Cymru
Ar-lein	Facebook Ymgyrch arddangos ar-lein Videology
Radio masnachol	Heart De Cymru Capital FM De Cymru Heart Gogledd Cymru Capital FM Gogledd Cymru Radio Pembrokeshire Carmarthenshire Swansea Sound

	The Wave Scarlet FM Bridge FM Nation Radio Ceredigion
Radio cymunedol	GTFM Cardiff Radio
Y wasg	Western Mail South Wales Echo Daily Post South Wales Evening Post South Wales Argus North Wales Weekly News The Wrexham Leader Cambrian News Western Telegraph Carmarthen Journal Llanelli Star Abergavenny Chronicle Brecon and Radnor Express Golwg
Sinema	Pearl and Dean
Y tu allan i'r cartref	Ochrau bysiau Ymyl y ffordd – taflenni 6 a 48 Gorsafoedd trên Ystafelloedd newid manwerthwyr Paneli y tu mewn i drenau

Cyrhaeddiad Hysbysebion

17. O ran gweithrediad yr ymgyrch yn gyffredinol (o 2013 i 2016), cyflawnwyd y canlynol:

- 25% oedd cyfanswm sylw oedolion ar y radio gyda chyfartaledd o 5 cyfle i glywed bob wythnos;
- Sicrhodd ITV sylw o 91.3%;
- Cafodd S4C 3,663,000 o olygon a Sky Adsmart 1,624,244 o argraffiadau oedolion (pan gaiff hysbyseb ei gyrchu o'i ffynhonnell).
- Cyrhaeddodd hysbysebion y tu allan i'r cartref (bws, trên, ymyl y ffordd ac ystafelloedd newid) 87% o'r holl oedolion a 22 cyfle i weld;
- 4,178 miliwn oedd cyfanswm yr argraffiadau Facebook;
- Cafodd yr hysbysebion sinema o leiaf 675,900 o fynediadau pendant; a Sicrhodd y Videology digidol (ffilm) 600,852 o argraffiadau oedolion (pan gaiff hysbyseb ei gyrchu o'i ffynhonnell).

Hysbysebu: Gorffennaf – Medi

18. Oherwydd y gyllideb lai ar gyfer blwyddyn ariannol 2016/17, targedwyd yr ymgyrch at gynulleidfa benodol. Yn dilyn adborth gan ganlyniadau'r arolwg Omnibws diweddaraf, fe'i targedwyd at y rhai â'r lefelau isaf o ymwybyddiaeth o'r system, ac roeddent hefyd yn un o'r grwpiau a oedd leiaf tebygol o fod wedi trafod eu penderfyniad gyda'u hanwyliaid.

Y rhain oedd:

- pobl 18-34 mlwydd oed
- grwpiau economaidd-gymdeithasol C2DE

19. Parhaodd yr hysbysebion yn 2016/17 ac fe'u prynwyd ar draws y llwyfannau canlynol.

Math o hysbysebu	Sianeli penodol
Radio masnachol	Heart De a Gogledd Cymru Capital FM De a Gogledd Cymru Radio Pembrokeshire Carmarthenshire Swansea Sound The Wave Scarlet FM Bridge FM Nation Radio Ceredigion.
Radio cymunedol	GTFM Radio Cardiff Spotify
Ar-lein	Wales Online Facebook
Y tu allan i'r cartref	Ochrau bysiau Y tu mewn i fysiau Paneli y tu mewn i drenau (rheilffordd y Cymoedd) Cynteddau sinemâu

Cyrhaeddiad Hysbysebion

20. O ran gwerthuso cyrhaeddiad yr hysbysebion, mae ein prynwyr cyfryngau arbenigol yn hysbysu y cafodd oedolion C2DE 3.5 o gyfleoedd i glywed ein hysbyseb radio ar y gorsafoedd radio masnachol. Cafwyd 4 cyfle i weld yr hysbysebion ar ochrau bysiau.
21. Darparodd hysbysebion Wales Online 300,000 o argraffiadau (h.y. pan gaiff hysbyseb ei gyrchu o'i ffynhonnell). Darparodd yr hysbysebion Spotify dros 330,000 o argraffiadau. Mae'r ddau'n darparu cyfraddau clicio drwyddo sy'n uwch na chyfradd safonol y diwydiant. Darparodd yr hysbysebion Facebook gyfanswm o 589,012 o argraffiadau. Mae'r nifer o weithiau yr hoffwyd y dudalen wedi cyrraedd dros 16,850.

Engbreiffiau o hysbysebion

- Hysbyseb Facebook



- Enghraifft o hysbyseb y tu allan i'r cartref



“Mae bod yn rhoddwr byw yn gwneud cymaint o wahaniaeth i'r rhai sydd angen trawsblaniad.

Becoming a living donor makes such a difference to those in need of a transplant.”

Nawr yw'r amser i siarad am roi organau
Time to talk about organ donation

f OrganDonationWales
t @OrgDonationCYM

© NewMedia & Creative/Creative Copyrights 2018 WIG27905

Proof: This is a proof. It is not for printing. Please check carefully before signing off.



“Dwi mor falch i Mam a finau siarad am roi organau. Pan fuodd hi farw, ro'n i'n gwybod ei bod hi am fod yn rhoddwr.

I'm so glad Mam and I talked about organ donation. When she died I knew she wanted to donate.”

Nawr yw'r amser i siarad am roi organau
Time to talk about organ donation

f OrganDonationWales
t @OrgDonationCYM

© NewMedia & Creative/Creative Copyrights 2018 WIG27905

Proof: This is a proof. It is not for printing. Please check carefully before signing off.


Hysbyseb y tu mewn i Drên (Rheilffordd y Cymoedd)

Hysbyseb y tu mewn i Fws

Gwefan

22. Ers lansio gwefan benodol ar gyfer rhoi organau yng Nghymru, bu dros 311,572 o ymweliadau iddi ac roedd 84% o'r rheini yn ymwelwyr newydd. O 16 Tachwedd 2015 tan 14 Tachwedd 2016, roedd 143,131 o ymweliadau ac, unwaith eto, roedd 84% yn ymwelwyr newydd. Mae'r graffiau isod yn dangos y traffig i'r wefan.


16 Tachwedd 2015 – 31 Rhagfyr 2015



Ionawr – Ebrill 2016



Mai – Tachwedd 2016



Cysylltiadau Cyhoeddus

23. Nod y cysylltiadau cyhoeddus oedd cynnal dealltwriaeth o'r dewisiadau rhoi organau yng Nghymru; hybu sgysiau ymhlith anwyliad, ac annog pobl i gofrestru penderfyniad. Mae'r holl straeon rhagweithiol wedi cynhyrchu sylw cadarnhaol yn gyson ar draws y cyhoeddiadau cenedlaethol a lleol, ar-lein ac mewn print, yn ogystal â darlledu. Mae wedi ategu'r hysbysebion trwy gynnig hanesion pobl sydd wedi cael eu heffeithio gan roi organau a'r broses drawsblannu. Ar hyn o bryd, ceir 68 o hanesion go iawn a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru ac a ddarperir i eraill, ac sy'n ymddangos o dan yr adran 'Eich Straeon' ar y wefan.
24. I nodi dechrau'r system newydd ar 1 Rhagfyr, cynhaliwyd digwyddiad yn y Senedd ym Mae Caerdydd, gyda gwesteion gwadd. Perfformiwyd y cynhyrchiad 'Symud 'Mlaen' gan Theatr Na Nog a chafwyd nifer o areithiau gan gynnwys cyn-chwaraewr rygbi Cymru, Rhys Thomas, sy'n aros am drawsblaniad calon. Rhoddodd cyfryngau Cymru sylw i'r stori trwy gydol y dydd ar ffurf sianeli darlledu, print ac ar-lein. Cafodd y digwyddiad sylw ar draws gyfryngau'r DU hefyd, ac yn rhyngwladol mewn manau fel Canada.
25. Fel amlinelliad cyffredinol, ar ôl 1 Rhagfyr 2015 a 5 Ebrill 2016 (hyd at ddechrau'r cyfnod cyn-etholiad), sicrhodd y cysylltiadau cyhoeddus o leiaf 19 achos o sylw ar-lein, 5 achos o sylw yn y cyfryngau print, 5 darn o radio a sylw yn y newyddion ar y teledu. Mae hyn wedi bod yng Nghymru a'r DU yn

ehangach. Mae pob un o'r rhain wedi bod yn ddarnau rhagweithiol yn hytrach na sylw a gynhyrchwyd o ymholiadau'r cyfryngau.

26. Bu o leiaf 80 achos o sylw print ac ar-lein a chyfanswm darlledu o 31 munud ar y teledu a'r radio fel eitemau newyddion rhwng mis Mai a mis Tachwedd 2016. Cyrhaeddodd hyn gynulleidfa o fwy na 15 miliwn drwy'r cyfryngau. Arweiniodd partneriaeth wythnos o hyd gyda'r orsaf radio masnachol Heart FM, a oedd yn cynnwys hysbysebion hyrwyddo, erthyglau ar-lein, fideo cyflwynwyr a chyfryngau cymdeithasol, a chymryd hafan y wefan drosodd, at lefelau da o ymgysylltiad gwrandawyr a gwylwyr.

27. Roedd y canlynol ymhlith enghreifftiau o'r themâu misol a gafodd sylw a chefnogaeth gan astudiaethau achos cenedlaethol a rhanbarthol (pan yn bosibl):

- Rhoi organau byw
- Ffermio a chymunedau gwledig
- Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig
- Grwpiau ffydd

28. Cododd cyhoeddiadau dan arweiniad Gweinidogion broffil rhoi organau hefyd, gan ein caniatáu i drafod y system ac annog pobl i gofrestru a siarad am eu penderfyniad.

Roeddent yn cynnwys:

- 14 Mehefin: 'Y system rhoi organau newydd wedi achub bywydau'. Ffigurau yn dangos y tybiwyd cydsyniad chwech o'r 15 o bobl a roddodd organau yn ystod chwe mis cyntaf y system newydd.
- 20 Gorffennaf: 'Dros hanner y boblogaeth heb ymuno eto â sgwrs fwyaf Cymru am eu penderfyniad ynglŷn â rhoi organau'. Nododd hyn ddechrau'r ymgyrch newydd.
- 1 Medi: 'Cynnydd yn nifer y bywydau a gafodd eu hachub neu'u gwella gan drawsblaniad organ'. Ffigurau newydd a gyhoeddwyd yn rhan o'r Adroddiad ar Weithgarwch Rhoi Organau a Thrawsblaniadau diweddaraf.
- 14 Hydref: 'Rhaid inni barhau i wella cyfraddau rhoi organau yng Nghymru'. I gyd-daro â lansiad Adroddiad Blynyddol ar Roi Organau 2016.

Digwyddiadau

29. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Tîm Rhoi Organau wedi gwneud cyflwyniadau mewn digwyddiadau penodol. Mae'r rhain wedi cynnwys (ond nid wedi eu cyfyngu i):

- Byw Nawr - Mai 2016
- Rhaglen gyfnewid Un Gwasanaeth Sifil - Mehefin 2016

- UK Civil Service Live – Gorffennaf 2016
- Cyngres rhoi organau genedlaethol Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG - Medi 2016

30. Ym mis Tachwedd 2015, cynhaliodd y tîm rhoi organau sioe deithio a ymwelodd â 17 o leoliadau dros 5 diwrnod, gan sgwrsio â thua 4,000 o bobl. Ymunodd ein hastudiaethau achos â'r tîm gan siarad am fanteision cofrestru penderfyniad. Yn anecdotaidd, roedd mwyafrif y bobl i ni siarad â hwy yn ymwybodol o'r newidiadau.

Deunyddiau Gwybodaeth

31. Diweddarwyd y daflen wybodaeth A5 ddwyieithog gennym i gefnogi'r ymgyrch ym mis Gorffennaf. Rydym wedi parhau i hyrwyddo a dosbarthu amrywiaeth o ddeunyddiau a gynhyrchwyd mewn fformatau amgen a hygyrch. Mae hyn wedi cynnwys hawdd ei ddeall, braille, print bras, sain, fideo iaith Arwyddion Prydain, yn ogystal ag amrywiaeth o ieithoedd lleiafrifoedd ethnig.

Cyfryngau cymdeithasol

32. Parhaodd sianeli Facebook a Twitter dwyieithog i gefnogi'r ymgyrch. Ein dull fu ymateb yn rhagweithiol i sylwadau a chwestiynau pan yn briodol i gynorthwyo dealltwriaeth o'r newidiadau i'r system. Mae tudalennau Facebook wedi parhau i gael eu hyrwyddo trwy hysbysebion. Mae hyn wedi bod yn llwyddiant o ran cynyddu cyrhaeddiad. Cynyddodd y nifer o weithiau yr hoffwyd y dudalen dros 4,000 (ystadegau o 13/10/14) i 16,850 'like' (14/11/2016). Roedd cydberthynas rhwng cyfnodau hysbysebu ar Facebook a chynnydd i'r nifer o weithiau yr hoffwyd y dudalen.

33. Mae gan ein sianel twitter penodol 1,105 o ddilynwyr erbyn hyn (nodwyd y nifer ar 14/11/2016).

 [Twitter: @OrgDonationCYM](https://twitter.com/OrgDonationCYM)  [Facebook: Organ Donation Wales](https://www.facebook.com/OrganDonationWales)

Ymgysylltu â rhanddeiliaid

34. Anfonwyd pecyn cymorth yr ymgyrch i grwpiau rhanddeiliaid a phartneriaid i nodi dechrau ymgyrch mis Gorffennaf, yn cynnwys gwahanol waith celf, negeseuon allweddol a deunyddiau hyrwyddo i'w cynnwys ar eu sianeli cyfathrebu eu hunain, i'w rhannu gyda staff a'u rhwydweithiau eu hunain.

35. Cyhoeddwyd e-fwletin rhanddeiliaid bob pythefnos tan ddiwedd mis Ionawr 2016, pan ddechreuwyd ei gyhoeddi bob mis. Fe'i cyhoeddwyd bob tri mis ers

mis Mawrth 2016. Cyhoeddir y cylchlythyr ar www.wales.gov.uk/organdonation ac fe'i hanfonir at tua 400 o bobl.

Ymgysylltu Penodol

Llythyr i'r rhai sy'n codi'n 18 oed

36. Mae pawb sy'n dynesu eu pen-blwydd yn 18 oed yn derbyn llythyr gan y GIG i'w hysbysu am ddewisiadau rhoi organau ar ôl iddynt gyrraedd 18 oed. Mae hwn yn drefniant parhaus.

Myfyrwyr

37. Mae gwaith penodol i ymgysylltu â myfyrwyr sy'n dod i astudio yng Nghymru wedi parhau, gan y gellid tybio eu cydsyniad os byddant yn byw yng Nghymru am flwyddyn neu fwy. Roedd y gweithgareddau'n cynnwys:
- Dros 8,000 o e-byst uniongyrchol a anfonwyd trwy UCAS i fyfyrwyr sy'n byw y tu allan i Gymru ac yn derbyn lle mewn prifysgol yng Nghymru. Roedd yr e-bost yn bersonol ac fe'i cyfeiriwyd at y brifysgol yr oedd yr unigolyn yn mynd iddi. 57% oedd y gyfradd agor, a oedd yn galonogol o ystyried mai cyfradd agor o tua 24% sy'n safonol yn y diwydiant.
 - Hefyd, anfonwyd llythyr uniongyrchol at fyfyrwyr sy'n byw y tu allan i Gymru ar hyn o bryd ac sydd wedi derbyn lle mewn prifysgol yng Nghymru.
 - Targedwyd negeseuon cyfryngau cymdeithasol at brifysgolion a cholegau yn benodol i gefnogi'r ymgyrch ar eu sianeli cyfryngau cymdeithasol.

Teuluoedd lluoedd arfog

38. Rydym wedi parhau i ymateb i geisiadau gan y grwpiau hyn am ddeunyddiau hyrwyddo penodol. Rydym hefyd yn eu targedu ar gyfryngau cymdeithasol.

Ymgysylltu â Phobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig a Grwpiau Ffydd

39. Mae pwyslais gwaith gyda'r grwpiau hyn wedi cynnwys estyn allan i grwpiau cymunedau ffydd a phobl dduon a lleiafrifoedd ethnig i geisio cynnal astudiaethau achos newydd; a gweithgarwch a negeseuon cyfryngau cymdeithasol wedi'u targedu.

Sgiliau a Chymwyseddau yn y GIG

40. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG, yr awdurdod ieuchyd arbennig sy'n gyfrifol am reoli'r broses rhoi organau yng Nghymru, er mwyn sicrhau bod rheolaeth weithredol y newid i'r system gydsynio yn cydymffurfio â Chod Ymarfer yr Awdurdod Meinweoedd Dynol ar Ddeddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013.

41. Mae gwaith wedi cychwyn i adolygu sut y mae'r nyrsys rhoi organau arbenigol wedi dehongli'r hyfforddiant sgysiau rhoi organau a pha welliannau y gellir eu gwneud i gefnogi'r nyrsys arbenigol i reoli'r sgysiau.

Gwerthuso

42. Mae gwaith ymchwil a gwerthuso penodol ar gyfer gwaith cyfathrebu yn cynnwys arolygon ymwybyddiaeth ac agweddau'r cyhoedd rheolaidd. Cynhaliwyd yr arolwg bob tri mis o 2014 tan fis Mehefin 2016.
43. Cynhaliwyd arolygon ym mis Tachwedd 2015 (cam 10), mis Mawrth 2016 (cam 11), a mis Mehefin 2016 (cam 12). Canolbwyntiodd cam 10 yr arolwg ar fonitro lefelau ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r newid i'r gyfraith ac roedd yn cynnwys cwestiynau ychwanegol i fesur ymwybyddiaeth ac atgof o ddeunyddiau'r ymgyrch. Canolbwyntiodd camau 11 a 12 ar ymwybyddiaeth a dealltwriaeth, yn ogystal ag agweddau ac ymddygiadau.
44. Dangosodd y prif ganfyddiadau:
- bod 74% o ymatebwyr yn ymwybodol o newidiadau i'r system rhoi organau ym mis Tachwedd 2015. Cynyddodd hyn i 82% ym mis Mawrth 2016, cyn gostwng i 76% ym mis Mehefin 2016.
 - bod 47% o ymatebwyr wedi trafod eu dymuniadau gyda'u hanwyliaid ym mis Tachwedd 2015; 48% ym mis Mawrth 2016; a 48% ym mis Mehefin 2016.
45. Defnyddiwyd y canfyddiadau i hysbysu'r ymgyrch hysbysebu y talwyd amdani ym mis Gorffennaf gan fod ymwybyddiaeth isaf ymhlith pobl 18-34 mlwydd oed a grwpiau cymdeithasol C2DE (gweithwyr llaw medrus; gweithwyr llaw lled-fedrus neu heb sgiliau; pensiynwyr y wladwriaeth, gweithwyr dros dro neu radd isaf, pobl ddi-waith â budd-daliadau'r wladwriaeth yn unig).
46. Mae'r adroddiadau ymchwil a gwerthuso wedi eu cyhoeddi [yma](#).

Rhagolwg a Blaenoriaethau

47. Mae digwyddiad wedi ei drefnu ar gyfer 1 Rhagfyr i nodi blwyddyn ers newid y system. Bydd hyn yn cynnwys digwyddiad gyda phobl sydd wedi elwa o'r broses rhoi organau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.
48. Bydd llythyrau awtomatig yn cael eu hanfon at bobl ifanc sy'n dynesu eu pen-blwydd yn 18 oed, yn uniongyrchol gan GIG Cymru. Mae hwn yn drefniant hirdymor a fydd yn parhau i'r dyfodol rhagweladwy.

49. Bydd strategaeth gyfathrebu flynyddol yn cael ei datblygu i barhau i hysbysu pobl am eu dewisiadau, a chymell trafodaethau gyda ffrindiau a theulu. Bydd diferiad parhaus o negeseuon, yn ogystal ag ymgyrch wedi ei thargedu yn ystod y flwyddyn.